

## Llwybr Awyrlin

Dosbarth y llwybr: Coch/Anodd

Pellter: 46km  
Amser: 4 - 7 awr  
Dringo: 2000m



Dilynwch yr arwyddion yma

**Mae'r Awyrlin yn gawr o lwybr. Sicrhewch eich bod chi a'ch cyfarpar yn hollol barod am reid arwrol ar hyd y nenlinell.**

Mae'n dringo ar hyd yr un llwybr cul â Lefel White ac yn parhau trwy ddringfeydd hir ar hyd heolydd coedwig gyda disgyniadau melys, rhwydd ar draciau unigol. Wrth edrych tua'r gorwel, cewch olygfeydd heb eu hail dros Fannau Brycheiniog, Mynyddoedd y Preselau, y Mynyddoedd Du ac arfordir De Cymru.

Bydd y llwybr hwn yn profi eich stamina a'ch dewrder, gyda thraciau unigol technegol megis 'Ar y Dibyn' a 'Caledfwlch'. Eich gwobr fydd gweld golygfeydd yn ymestyn o'ch blaen a disgyniad iasol ar hyd 6 km o drac unigol yn ôl i Lyncorwrg. Mae hefyd 2 ddolen llwybr tarw ar y llwybr. Byddwch yn dringo i dir agored hyd at 600 metr uwch lefel y môr, lle gall y tywydd fod yn newidol dros ben. Unwaith eto, byddwch yn barod.

### Yn addas i

Beicwyr mynydd medrus gyda sgiliau oddi ar y ffordd da. Addas i feiciau mynydd oddi ar y ffordd o ansawdd da.

### Mathau o lwybrau ag arwyneb

Mwy serth a chaled. Trac sengl gan fwyaf gyda rhannau technegol. Byddwch yn barod am lawer o arwynebeddau amrywiol.

### Nodweddion graddiant a thechnegol y llwybr

Yma ceir amrywiaeth eang o ddringfeydd a disgyniadau eithaf heriol. Byddwch yn barod am lwybrau bordiau, ysgafellau, creigiau mawr, camau cymedrol, disgyniadau, cambrau, a manau croesi dŵr.

### Lefel ffitrwydd awgrymedig

Lefel uwch o ffitrwydd a stamina.



## Skyline Trail

Bike trail grade: Red/Difficult

Distance: 46km  
Time: 4 - 7 hours  
Climb: 2000m



Follow these waymarkers

**Skyline is a giant of a ride. Ensure you and your equipment are fully prepared for an epic skyline ride.**

Sharing the same sheep-track ascent as White's Level and continuing on long, forest road climbs with sweet, flowing technical singletrack descents you will be treated to stunning, skyline views of the Brecon Beacons, the Preselis, the Black Mountains and the South Wales coast.

This route will test your stamina and your nerve, with technical singletrack such as sections 'On The Edge' and 'Excalibur'. Your reward will be out-stretched views and a nerve-tingling, rocky, 6km singletrack descent back into Glynorwrg. There are also 2 short-cut loops built into the trail.

You will experience exposure at altitudes up to 600 metres, and possible extreme weather changes. Again, be prepared.

### Suitable for

Proficient mountain bikers with good off-road riding skills. Suitable for better quality off-road mountain bikes.

### Trail and surface types

Steeper and tougher, mostly singletrack with technical sections. Expect very variable surface types.

### Gradients and technical trail features (TTFs)

A wide range of climbs and descents of a challenging nature will be present. Expect boardwalks, berms, large rocks, medium steps, drop-offs, cambers and water crossings.

### Suggested fitness level

Higher level of fitness and stamina.

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021. OS 100019741 | © Crown copyright and database rights 2021. OS 100019741